



Croeso i argraffiad dau. Rydym wedi goroesi ac wedi dysgu llawer am sut i gynhyrchu a dosbarthu papur newydd. Diolch i'r rhai a roddodd help llaw drwy rannu'r papur ac i sicrhau nad oeddent ddim ond 18 diwrnod yn hwyr!! Hefyd diolch i Mike Brown o Cyhoeddiadau A5 a argraffodd y rhifyn cyntaf yn rhad ac am ddim. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau gennych yn rhai ffafriol, oedd unrhyw beth ar goll nid oeddem yn ymwybodol ohono! Nodwyd gan Y Bont fod Sioe Dalentau'r Pentref yn dychwelyd am y drydedd flwyddyn llwyddianus. Mae Heather Scott yn recriwtio talent i'r Sioe a fydd yn cael ei gynnal ym mis Ionawr. Mae'r sioe yn agored i bob oed a thalentau cudd! Os ydych am ymuno (neu helpu) cysylltwch a Heather cyn gynted a phosibl gan fod lle yn gyfyngedig

Fel Cynghorydd Sir i Garrog ers 1958 rwyf wedi gweld nifer o newidiadau, ond o bell, yr un mwyaf arwyddocaol yw trawsffurfiad yr hen adeilad Ysgol i'r Neuadd newydd. Dros y cyfnod hir yr ydym wedi bod yn adnewyddu ac ail-adnewyddu ein Neuadd, rydym yn falch bod Clwyd ac yna Sir Ddinbych wedi rhoi llawer o gymorth ariannol a c ymarferol. Fel aelod o'r Cyngor hoffwn ddweud fy mod wedi fy mhlesio ac fod gennym gyfleuster gwerth chweil yng Ngharrog.

Hoffwn ddiolch i'r bobl lleol sydd wedi gweithio mor galed i sicrhau hyn. Nid ydynt yn gofyn am unrhyw wobwr am ei gwaith caled, dim ond i'r adeilad gael ei ddefnyddio ac i bawb edrych ar ei ol. Gofynnir hefyd am bob cefnogaeth tuag at ymdrechion codi arian yn y dyfodol fel y gall trigolion Carrog ymfalchio yn y Neuadd am flynyddoedd i ddod.

Hoffwn hefyd estyn llongyfarchiadau i'r rhai sy'n gyfrifol am gynhyrchu ein Papur Newydd Cymunedol. Mae'n syniad gwych a phob lwc iddynt yn eu menter.

Cyng. Rhys Webb

EDRYCH AR Y BONT

Bron f'atgof cyntaf o bontydd oedd ar ddiwrnod trip Ysgol Sul n'ol yn y pumdegau.

Rhyl oedd pen y daith i ni yn Sir Fon bryd hynny a'r hwyl mwyaf oedd ar y ffordd yno. Roedd yn rhaid i ni gyd ddod oddi ar y bws a cherdded ar draws yr hen bont yng Nghonwy oherwydd ei bod yn rhy wan i gynnal pwysau bws llawn - am sbort! annodd yw gorddweud pwysigrwydd pont i bobl Sir Fon. Wedi'r cwbl rhaid oedd croesi pont wrth fynd i unfan! Ar yr un pryd mae'r bont yn ffordd o gau gweddill y byd allan. Mi f'aswn i'n dadlau fod y bont yn diffinio cymeriad - fod y bont yn dod yn rhan anatod o bwy ydych. Mae hyn i'w weld yng Ngharrog er mai nid ynys mo'r pentref. Er mor brydferth yw'r bont sy'n croesi'r afon mi fydd ei chroesi yn foment llawer mwy pwyerus na'r olygfa. Daw'r croesi yn symbol cryf o droi cefn wrth i ni gofleidio cymdeithas arbennig nad yw'n bodoli tu draw i fwa'r hen bont.

Gwyn L. Williams

A WYDDOCH CHI?

- 'Roedd Paul McCartney yng Ngharrog yn 1968 ym mhriodas ei frawd, Michael.
- Roedd Michael yn aelod o 'The Scaffold'
- Roedd 12 o westeion yn cynnwys Jane Asher
- Ail briododd tad Paul sef Jim yn 1966 a bu'n byw yn Afon Ro am rai blynyddoedd
- Arweinwyd y briodas gan y Parch David Bevan. Roedd ei wraig Mary yn perthyn i Paul
- Aeth y parti priodas i gael te i'r Rheiorthy.

A oes gan unrhyw un luniau o'r digwyddiad?

Gobeithiwn gynnwys hyn fel nodwedd rheolaidd. A oes gennych chi unrhyw ffeithiau neu hanes i'w rannu?

CYMDEITHAS HANESYDDOL EDEYRNION

Cafodd y Gymdeithas ei sefydlu yn 1978. Galwodd Cyngor Cymdeithas Corwen gyfarfod cyhoeddus i asesu diddordeb mewn ffurfio Cymdeithas o'r fath. Er syndod daeth tua 80 o bobl i'r cyfarfod a penderfynwyd sefydlu'r Gymdeithas. Y nod oedd i annog ymchwil hanes lleol ac i drefnu darlithoedd, sgysriau a teithiau, ac i geisio diogelwch hen bethau.

Ym mis Mehefin, 1979 roedd Cyngor Glyudwr am ddymchwel wyreus Gorwen gan ei fod yn atgof o'r dyddiau caled. Gwrthwynebodd y Gymdeithas yn gryf a thrwy lwc cymerwyd sylw o'n cri. Mae hyn yn golygu fod adeilad o bensaerniaeth amlwg yng Nghorwen yn dal if fodoli - heddiw fe'i adnabyddir fel Corwen Manor. Trueni nad oeddem o gwmpas rhwng 1901 a 1908 fel a ddarganfyddwyd ar ddydd Mawrth, Hydref 21ain eleni. Rhoddodd Mr. Ian Lebbon gyflwyniad yn Neuadd Carrog ar yr ymdrech a wnaethpwyd i annog cymorth i ddiogelu Carchardy Owain Glyndwr. Mae'n drist na wrandawodd neb yr adeg hynny a bod rhan pwysig o'n etifeddiaeth wedi ei golli.

Bob blwyddyn ceir pedwar darlith o fewn Edeymion a tri taith i fannau o ddiddordeb. Mae croeso cynnes i bawb - ond yn well fyth gallwch ymaelodi am gost o £ y flwyddyn. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Ysgol Isa Cynwyd ar Ddydd Mawrth. Tachwedd 25ain am 7.30 yr hwyr.

Mrs. Valmai Webb

YSGOL CARROG

Enillodd Ysgol Carrog Â£10 yng nghystadleuaeth 'Aqua' a drefnwyd gan Bafliwn Llangollen. Cafodd Harry Pooler a Sioned Roberts ganmoliaeth am ei gwaith a derbyniodd y ddau gryd - t a thocynnau sinema. Roedd y gwaith wedi ei arddangos yn y Gallery.

Cafodd y plant eu diddori gan Superted and Twf yr wythnos diwethaf. Trefnwyd yr ymweliad gan Menter Iaith syn hybu dwy ieithrwydd ac fe gafodd bob blentyn fag anrheg i fynd adref.

Mwynhaodd y plant iau ddiwrnod yn Canolfan Addysg Legacy lle cawsant cyfle i fod yn Geltiaid am ddiwrnod.

Ymunodd Carrog a Llantysilio, Glyndyfrdwy and Dyffryn Ial am weithdy diogelwch ffordd gyda chwmni 'Jugglestruck'.



MWY ESTRON NA FFUGLEN

Adroddwyd ar Newyddion HTV yr wythnos diwethaf fod son am gau ysgolion pentref yng Nghymru. Y rheswm pennaf am gau ysgolion yw'r gostyngiad mewn niferoedd sydd, yn ôl polisi swyddogol, yn gwneud yr ysgol yn anichonadwy, Er nifer o brotestiadau caewyd yn ysgol.

Yn yr achos hwn gwerthwyd tir yr ysgol i ddatblygwr a adeiladodd ystadd o dai felly yn dod a mwy o blant yn ôl i'r pentref a fyddai'n gwneud y nifer yn yr ysgol yn ddichonadwy.

CYNGERDD

Roedd y Neuadd yn orlawn ar gyfer Cyngerdd Mawreddog ar y 18fed o Hydref. Agorwyd y Cyngerdd gyda Chantorion Rhos, Cor cymysg a enillodd yr Eisteddfod Genedlaethol eleni, dilynwyd gan Pedwarawd Llansilin gyda'i harmoni bendigedig a'u telyneg doniol.

Canodd Bryony Keyse a Samantha Scott ddwy ddeuawd hyfryd gyda Diana Keyse ar y piano. Chwaraeodd Colin Keyse unawd ffidl ac fe gyfeiliodd i Bethan Scotford ynghyd a Diana Keyse.

Cyflwynwyd y noson gan Eurin Jones gyda'i storiâu digri rhwng y perfformiadau. Trwy gymorth nawdd nifer of bobl yn y pentref, derbyniodd Ty'r Eos ac Eglwys Carrog rodd o o leiaf Â£26yr un.

Trefnwyd y Cyngerdd gan Pam Evans, Jennifer Jones a Tina Lloyd

CAPEL AC EGLWYS

Capel Methodist

Cynhelir Gwasanaeth am ddau or gloch ar yr 23ain o Dachwedd yng ngofal Mrs. Mair Penri Jones or Parc, Bala.

Eglwys Llansantffraid

Dydd Sul Coffa - bydd gwasanaeth ar ddydd Sul y nawfed o Dachwedd am 10.45 y bore yn cychwyn wrth y 'War Memorial' ac yn symud i'r Eglwys yn dilyn y 'distawrwydd'.

Mae'r Eglwys yn ddiolchgar i bawb a gyfrannodd - nodyn i'r rhai sydd am gyfrannu - mae'r apel dal ar agor.

Capel Bedyddwyr

Cynhalwyd gwasanaethau diolchgarwch ar yr ugeinfed o Hydref gyda Mr.

Elwyn Ashford Jones yn annerch y plant yn y prynhawn ac yn pregethu yn yr hwyr.

MARWOLAETH

Mr. Bill Davies 3, Tai Teg yn 72 oed Estynnwn ein cydymdeimlad i'w weddw, Janet a'r plant a'r yron/wyresau

NEUADD CARROG

Mae'r system gwres canolog wedi cael ei ymchwilio ac yn gweithio ar gyfer y gaeaf. Fe roddir cyfarwyddiadau i'r sawl sy'n defnyddio'r Neuadd.

CLWB SNWCER

Ar dydd Mawrth Hydref 21ain ruedd Carrog yn chwarae adre i Tim 'A' Ysbyty Ifan pan enillwad Ysbyty Ifan pedair gem i ddwy.

Y Dydd Mawrth dilynol enillodd tim Llandrillo 'B' yn erbyn Carrog tair gem i ddwy.

YSTYRIWCH HYN ...

Os ydym yn canu yng Ngharrog, a'i 'Carrog-okee' yw hyn?!

David Tinniswood

DYDDIADUR

Clwb Ieuentid

Mae'r Clwb Ieuentid yn cyfarfod bob Nos Wener o 7 - 9 yr hwyr yn ystod misoedd y gaeaf. Croeso i aelodau newydd.

Capel Methodist - Mae'r Ysgol Sul yn cyfarfod bob bore Sul am 10 or gloch. Croeso i blant o bob oedran.



Ffair Nadolig Eglwys Carrog

- Nos Iau, 27ain o Dachwedd. Bydd nifer o weithgareddau a stondinau.

Efeillio

Bydd cyfarfod i drafod efeillio gyda phntref ym Mreton yn y Neuadd, nos Wener 29ain o Dachwedd am 7 o'r gloch yn yr ystafell bwyllgor.

Neuadd Carrog - Cyfarfod Pwyllgor ar nos Lun. Iaf o Rhagfyr am 7 or gloch. Cyfarfod agored yw hwn ac fe annogir y gymuned i fynychu.

Ysgol Carrog PTFA - Noson Bingo yn y Neuadd 25ain o Dachwedd 6.30 yr hwyr.

CAROLAU O GWMPAS Y

GOEDEN - Rhagfyr 9fed - 6.30 yn y Neuadd

Clwb Llansantffraid - Diolch i'r rhai a helpodd i lenwi bocsus esgidiau gyda anrhegion a theganau i blant o'r Dwyrain Canol. Mae'r Clwb yn cyfarfod bob yn ail ddydd Iau ac yn estyn croeso i aelodau newydd. Am ragor o wybodaeth cysylltwch a Mrs. Eileen Williams, Llywydd neu'r Trysorydd Mrs. Marian Brown.

A YDYCH YN COFIO? ...

A oes unrhyw yn cofio Sian a Jenny Corish o Tawelfa. Mae'r teulu yn byw yn Llundain erbyn hyn ac mae'r ddwy ferch wedi dewis saethu fel chwaraeon. Y mis diwethaf cafodd Jenny ei hanrwydeddu yng Nghaerdydd gan dderbyn Merch Chwaraeon y Flwyddyn. Mae'r ddwy yn teithio i Sweden yr wythnos nesaf i gystadlu yn y Pencampwriaeth Ewropeaidd. Pob Iwc iddynt!

LLONGYFARCHIADAU

Victoria (Nee Tinniswood) a Simon Creegan Davis ar enedigaeth merch, Beatrice (6pwys 6 owns) ar 19/10/03 am 6 am

LLYTHYRAU

Llongyfarchiadau i Dim 'Y Bont' - Paul, Ian a Colin ar holl arwyr a alluogodd i'r rhifyn cyntaf o'r Bont gael ei argraffu a'i rannu. Da iawn chi.

Y Felin

Annwyl Olygydd,

Llongyfarchiadau ar yr argraffiad cyntaf o 'Y Bont' . Cylchlythyr diddorol a defnyddiol.

Gobeithio y cewch fynd o nerth i nerth - bydd yn ddefnyddiol iawn i ni yn Llidiart y Parc, trwy roi gwybod i ni beth sy'n digwydd 'dros y dwr'!

Efallai y byddai'n bosib dosbarthu nifer o gopiau yn siopau Corwen er mwyn hyrwydd digwyddiadau'r pentref.

Pob lwc gyda'r fenter newydd.

Faye Lea, Parc House

Annwyl Syr,

'Rwyf yn byw yn Llidiart y Parc ac yn peni'n arw am gyflymder y traffig ar hyd yr A5. Yn y misoedd diwethaf bu nifer o ddamweiniau yn y pentref o achos hyn. Teimlaf mai mater o amser fydd hi nes i ryw berson diniwed gael difrod neu waeth obherwydd diffyg cyfyngiad cyflymder.

Yn dilyn nifer o geisiadau, rhaid gofyn pam fod y Cyngor mor anfodlon i gyflwyno'r cyfyngiad cyflymder a allai arbed bywydau?

Eric Lea

AR WERTH / YN EISIAU

Ar Werth

Llun Gopiwr Muratec F - 48.

Gweithio'n ardderchog. Yn cynnwys papur ychwanegol.


Â£2ono 01490 430 259

RAYBURN HEATRANGER LPG

- 2 flwydd oed. Coginio ac i fyny at 16 gwresogydd. Gwyrdd Â£2,50ono Hanner y pris gwreiddiol 01490 430 397

Yn Eisiau

Ysgrifennydd Llogi'r Neuadd Gadewch i Colin Roberts neu Ian Lebbon wybod os oes diddordeb gennych.



GROUSE INN

Proprietor: Sarah Kenrick
The Grouse Inn, Carrog, Corwen LL21 9AT.
Tel: 01490 436272

- Beer Garden overlooking River Dee
- 2 minutes walk from the Train Station
- Open All Day for Food and Drinks

Carrog Mill Cottages
Y Felin, Carrog
5 Star Self Catering
Accommodation

430640
www.carroemill.com

Dewis Dyddyn
Cottage Apartment
Carrog

4 Star Holiday Apartment
430397

Berwynfa Holiday Cottage
4 Star Self Catering
Accommodation

Carrog
430615



Ann's Hairdressing Salon
OC
Nail Bar.
Tel: 01490 412175

Bridge Street, Corwen, Denbighshire LL21 0AB

A.W. DOLBEN
Parc Service Station
Mechanical and Body Repairs
01490 430 380

ERIC LEA MLIA(DIP)
Independent Financial
Adviser
Advice on:
Mortgages. Pensions.
Investments. Life Assurance
Malthouse, Regent St,
Llangollen.
01978 860548



GENERAL PRINTERS
PUBLICATIONS
Established 1978
01490 430667

Competitive prices - friendly service.
Free quotations - no obligation.
• Dwyieithog •

Letterheads, Business Cards,
Compliment Slips, Tickets, Booklets,
Newsletters, Magazines, Posters, Leaflets,
Draw tickets, NCR invoice sets,
Wire bound books and more - **including:**
Full colour printing and design
- award winning design service.

www.a5publications.com
A5 Publications, Corwen, LL21 9BP



BUSINESS WEB SITES
INTERNET **01490 430667**

Web Programming - Databased Websites
- Ecommerce Services - Web Games -
Computer Repairs - Emergency Call-outs

www.a5internet.com